Y GAMBO

Papur Bro De Orllewin Ceredigion

RHIF 378 HYDREF 2020 £1.00

6 Peth i'w gwneud yn ystod

MIS HYDREF

1 Darllen Y GAMBO

2 Gwneud brawddeg allan o'r gair HYDREF

3 Gwneud cymaint o eiriau â phosib allan o'r gair HYDREF

4 Mynd am dro bach a thynnu llun

5 Plannu Cennin Pedr

6 Codi'r ffôn i gael clonc fach

GOLYGYDD Y MIS

Eleri Evans

Y GAMBO MIS TACHWEDD

Carol Byrne Jones
Pencartws, Aberporth
01239 811024 e-bost: c.byrnejones257@btinternet.com

Deunydd i mewn erbyn 27 Hydref
Dosbarthu Caffi Emlyn, Tanygroes – dydd Iau 12 Tachwedd

PWYLLGOR GWAITH
Y GAMBO

Cadeirydd:
Eleri Evans (01239 810871)
eleri500@hotmail.com

Ysgrifennydd a Clwb 500:
John Davies, Y Graig, Aber-porth (01239 810555)
e-bost: johnygraig@tiscali.co.uk

Trysoryddion: Des ac Esta Davies, Min-y-Maes, Penparc, Aberteifi SA43 1RE
(01239 613447)
e-bost: desdavies@hotmail.co.uk

Hysbysebion: Mair Heulyn Rees
Cefn yr Ydlan, Synod, Llandysul SA44 6JE
Rhif ffôn: 01545 580462
e-bost: mairheulyn@yahoo.com

GOHEBWYR LLEOL

Aberporth: Ann Harwood (01239 811217)
manhaul@hotmail.com

Beulah: Gerwyn Morgan (01239 810752)
gerwyn.morgansa38@gmail.com

Blaenannerch/Tre-main: Mary Postance (01239 810054)

Blaencelyn: Jon Meirion (01239 654309)

Blaen-porth: Nesta Griffiths (01239 810780)
Ennis Howells (07854 938114)

Bryngwyn: Linda Morgan (01239 711249)

Marlene Evans (01239 710708)

Brynhoffnant: Llinos Davies (01239 654135)
llinosbengoch@yahoo.co.uk

Caerwedros: Aled a Heledd Dafis (01545 561355)
aleddafis@gmail.com

Ceinewydd: Wendy Davies (01545 560344)

Coed-y-bryn: Yn eisiau

Croeslan: Marlene E. (01239 851216)

Ffostrasol: Emyr a Gwen Davies (01239 851343)

Glynarthen: Dewi Jones, Pantseirifach 01239 814609 / (07970 042101)

Horeb/Penrhiwllan: Beth Davies (07901 716957)
bethan@cd1340.f9.co.uk

Llandygwydd: Yn eisiau

Llannarth: Isabel Jones (01545 580608)

Llanllwchaearn: Gwyneth Thomas

Llangrannog: Ceindeg Haf

Llechryd: Peter Hazzelby

Maen-y-groes: Edna Thomas (01545 560060)

Penparc: Melanie Davies (01239) 621329
melanie.translation@btinternet.com

Plwmp a Phentre-Gât: Celia Richardson a Nigel Blake, (01239 851300)
nigelblake@gmail.com

Pontgarreg: Lynda Evans
golygfa@tiscali.co.uk
(01239 654277)

Rhydlewis: Vera Davies (01239 851489)

Sarnau a Penmorfa: Alison Vaughan-Jones (01239 654610)
alisonvj@icloud.com

Synod: Mair Heulyn Rees (01545 580462)

Talgarreg: Heledd Gwyndaf (07794 065826)
heleddgwyndaf@hotmail.com

Tan y groes: Elspeth Evans (01239 811026) ac Eleri Evans (01239 810871).

Tre-saith: Sally Jones (01239 810274)

Y Ferwig: Auriol Williams (01239 612507)
auriolwilliams@hotmail.com

YN EISIAU

Coed-y-Bryn, Llandygwydd

Ariennir *Y Gambo* yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

ATGOFFA'R GOHEBWYR

Mae'n hollol bwysig cadw at y dyddiad cau i bob rhifyn o'r *Gambo*. Fe nodir y dyddiad ar dudalen 2 o bob rhifyn, a bydd unrhyw ddeunydd hwyr yn cael ei gario ymlaen i'r rhifyn nesaf.

Gofynnir i bob gohebydd lleol sy'n defnyddio e-bost sicrhau ei fod wedi cael cadarnhad gan olygydd y mis bod y deunydd wedi cyrraedd yn ddiogel.

Diolch am eich cydweithrediad.

GOLYGYDDOL

Diolch i Ms Gwyneth Thomas Cross Inn am ddanfon yr englyn yma gan y diweddar Dai Rees Davies ataf.

Y GAMBO

Caria hon lwythi cryno – o'n heniaith
I'w rhannu drwy'r henfro,
A'i thaith yn fodd, gobeithio
I barhau Cymreictod bro.

Ynghanol y rhifyn diwethaf o'r *Gambo* 'roedd yna holiadur byr yn gofyn i chi'r darllenwyr i ddewis sut y byddech chi yn dymuno derbyn eich copi o'r *Gambo* yn y dyfodol. Cael copi printiedig a'i brynu yn lleol yw dewis y rhan fwyaf ohonoch yn bendant. Felly mae'n hanfodol bwysig ein bod ni fel pwyllgor yn sicrhau fod hyn yn medru digwydd. Apeliaf felly am ragor o wirfoddolwyr fyddai yn fodlon ymuno â'r tim golygyddol. Byddem yn gwerthfawrogi cael cymorth pobl â sgiliau technoleg i hwyluso'r gwaith er mwyn sicrhau dyfodol yr adnodd hynod werthfawr yma.

Deddf Diogelu Data

Ar Fai 25, 2018 daeth Deddf Diogelu Data i rym.

Oni nodwch yn wahanol byddwn yn cyhoeddi'ch enw a'ch cyfeiriad o dan y canlynol:

- *Gambosair*
- *Cornel y Plant*
- *Clwb 500*

DEWI JAMES A'I GWMNI
CIGYDDION O FRI
"Y GORAU YN RHATACH
DOSBARTHIR I BOB RHAN O'R ARDAL"
38 STRYD FAWR, ABERTEIFI (01239)612063
Y GIGYDDFA, CASTELL NEWYDD EMLYN (01239)710519

Brodwaith Teifi Embroidery
4 Cornel Pendre, Aberteifi SA43 1JL
Ffon: 01239 615030 / 07971 763272
Ebost: anne@teifiembroidery.co.uk
Gwefan: teifiembroidery.co.uk
Printio Gwniadwaith Gwisg Ysgol Clybiau Chwaraeon
Corfforaethol Gwisg waith Anrhegion Priodasau

Golwg Y Mor 01545 560 430
GOLWG-Y-MÔR
Cigyddion
Ceinewydd SA43 2HR
Tanygroes 01239 811298
Aberaeron 01545 570242
Gellir dilifro'n lleol
Cymerir archebion

BEULAH

Pori hen bapurau

Dros y misoedd diwethaf ac oherwydd y feirws dieflig Cofid 19 roedd amser i edrych ar hanesion lleol o'r 1800au ym mhapurau wythnosol yr ardal. Mae'r cwbwl ar gael ar y wê diolch i'r Llyfrgell Genedlaethol.

Diddorol oedd darllen hysbyseb ynglŷn â Fferm Pantyrodyn, Beulah a ymddangosodd yn y 'Carmarthen Journal' ym mis Mai 1812. Hysbys oedd yn dweud fod y fferm yn rhydd ac yn gwahodd tenant newydd. Ar y pryd 'roedd Pantyrodyn yn rhan o ystâd y teulu Lewes, Plas Llannerchaeron, Dyffryn Aeron.

Mae'r hysbyseb yn disgrifio Pantyrodyn fel fferm 400 erw – "... of capital Arable, Meadow and Pasture land in a high state of cultivation ..." Mae yn mynd ymlaen i nodi fod y fferm o fewn 3 milltir i Castellnewydd Emlyn "... and 7 miles from the seaport and market town of Cardigan and within 5 miles of lime and has great command of water ..."

Roedd yr hysbyseb yn ychwanegu y dylai unrhyw un â diddordeb gysylltu â Mr Beynon, asiant y Plas, sef cyfreithiwr o Gastellnewydd Emlyn. Hwn, gyda llaw, ddwy flynedd wedyn yn 1814 a saethodd gŵr o'r enw Heslop yn farw mewn gornest [duel] hanner ffordd rhwng y dref a Llandyfriog. Yn ôl hanes dyma'r duel olaf gyda drylliau yng Nghymru.

Hysbyseb arall a daliodd fy llygaid oedd un am brifathro i Ysgol Brongest a ymddangosodd ar ddiwedd y ganrif yn 'Baner ac Amserau Cymru". Noda'r hybys fod "... Welsh indispensable ... Salary £40 per annum ... House and garden rent free ..."

Y Capel yn Agor

Cafwyd gwasanaeth i gapeli gofalaeth y Parchg Dorian Samson yng Nghapel Beulah, dydd Sul, Medi 13eg. Dyma'r gwasanaeth cyntaf yn y capel ers cychwyn helynt y feirws Cofid 19 ym mis Mawrth eleni.

Roedd canllawiau'r Llywodraeth wedi eu dilyn wrth baratoi'r adeilad a braf oedd gweld cynulleidfa deilwng yn bresennol yn yr oedfa. Y gweinidog y Parchg Dorian Samson oedd yn gwasanaethu.

Priodas Aur

Estynnwn longyfarchiadau i Lyn a Liz Jones, Karinia a ddathlodd benblwydd eu Priodas Aur yn ystod mis Medi.

Priodwyd y ddau yng Nghapel Penuel, Cilgerran ar y 12fed Fedi 1970. Cafwyd y wledd briodas yng Ngwesty Penrallt, Aberporth a treuliodd y ddau eu mis mêl yn Llundain ac yn twro De Lloegr.

Dymuna'r ddau ddiolch yn ddiffuant iawn i bob un a alwodd heibio ar ddydd y dathlu ac am yr anrhegion a'r cyfarchion a dderbyniwyd.

Lyn a Liz Jones, Kariniaa chacen y dathlu

Llongyfarchiadau

i Nerys Defis, Gwrthwynt gynt sydd wedi ei phenodi yn ddarlithydd mewn Addysg gyda'r Brifysgol Agored. Dros y blynyddoedd diwethaf roedd Nerys yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod, Caerfyrddin.

i Llion Davies, Yr Hendrefwyn sydd wedi ei ethol yn Is-gadeirydd Cyngor Cymuned Beulah.

SYNOD

Ail ddechrau Merched y Wawr y Brynie – "gyda 'chydig o ddychymyg"

Ddechrau mis Awst, fe gafodd stondin Merched y Wawr ei chynnal ar faes y brifwyl. Fe joiodd pawb y gloncy te a'r pice ar y maen (gan dim llai na 5 gwahanol gwmni!) A jiw, roedd y tywydd yn ddigon ffein hefyd – bonws ar gyfer dydd Gwener ola'r Steddfod!

Do, fe wnaeth Cangen Merched y Wawr y Brynie gwrdd yng ngardd Nerys Fron, yr Ysgrifennydd, ac yn ein dychymyg roedd y 'stondin' yn Eisteddfod Tregaron!

Aethom ati i drefnu'r pnawn er mwyn creu rheswm i'r criw o ffrindiau gwrdd – y cyfan trwy gadw pellter a chadw'n saff. Doedd llawer ohonom heb weld ein gilydd ers mis Mawrth, pan ddaeth gweithgareddau'r mudiad a phob mudiad arall i ben yn sydyn.

Fe wnaeth pawb elwa mwy na jyst paned a chacen o'r diwrnod. Roedd yn gyfle i sgwrsio am y pethau bach hollbwysig yna sydd wedi bod yn digwydd yn lleol (pa mor fishi oedd Cei, shwt oedd cymdogion wedi bod yn ymdopi, a faint oedd wyrion ac wyresau'n pryfio!)

Ond roedd hi'n gyfle hefyd i rannu teimladau am gyfyngiadau'r Covid. Y duedd dros y misoedd diwethaf yw ein bod ni'n dueddol o drafod pethau gyda'r bobol ry'n ni'n eu gweld amlaf – y bobol sy'n byw yn ein cartref neu drws nesa, a phobol sydd wedi dewis dechrau cymdeithasu â'i gilydd. Prin yw'r cyfleoedd diweddar i glywed barn pobol sy'n meddwl yn wahanol i ni – pobol sydd heb fod i unman, neu sydd wedi gorfod hunanynysu'n gaeth, er enghraifft.

Un o'r trafodaethau mawr oedd pryd a sut y gallai'r gangen ailddechrau cwrdd 'go iawn'. Am ba hyd fydd y tywydd yn caniatáu cynnal pethau mas yn yr awyr agored? Faint fydd yn gallu cwrdd mewn neuaddau'n saff pan fyddant yn ailagor? Oes lleoliadau eraill all wneud y job?

Maen nhw'n gwestiynau pwysig y mae arweinwyr ein cymunedau ledled Cymru yn eu hystyried. Yn draddodiadol, dechrau Medi yw dechrau'r flwyddyn ddiwylliannol newydd. Dyma pryd mae mudiadau a chlybiau lleol yn arfer ailddechrau ar ôl hoe yr haf – er mwyn cael achlysuron cyson i edrych mlaen amdanynt trwy'r gaeaf hir.

Eleni, pa gymorth fydd yn cael ei roi i'n harweinwyr er mwyn eu galluogi i ailddechrau un o elfennau sylfaenol cymdeithas – ein diwylliant? Mae llawer iawn o sôn wedi bod am iechyd dros y misoedd diwethaf, fel y disgwyl. Ond mae'n teimlo fel pe bai mwy fyth o sôn am yr economi, wrth i gyrchfannau twristiaid agor eu breichiau led y pen i ddenu ymwelwyr i'n bröydd glan môr dros yr haf.

Ond faint o sylw sy'n cael ei roi i impact Covid ar gymdeithas? Ble mae 'cynnal diwylliant a ffordd o fyw' yn rhestr blaenoriaethau'r bobol mewn grym?

Efallai bod angen i ni i gyd wneud rhywbeth tebyg i Ferched y Wawr y Brynie – defnyddio ein dychymyg i ffeindio ffordd o wneud beth sydd angen ei wneud. Fe brofodd ein arbrawf ni bod modd cwrdd lan yn saff a bod lot o les o wneud hynny. Mae angen parhau i feddwl yn greadigol, er mwyn cadw'r cysylltiad i fynd dros y gaeaf.

Ysgol Bro Siôn Cwilt

Rydym yn hynod falch fel ysgol ein bod wedi gallu croesawu'r disgyblion yn ôl atom ar gyfer tymor yr Hydref. Rydym yn hynod ddiolchgar i deulu'r ysgol am dynnu at ei gilydd a'n cefnogi trwy'r cyfnod anodd a'n helpu i gadw at ein gweithdrefnau newydd.

Tymor hyn, rydym yn awyddus i barhau i gynnig profiadau cyffrous a newydd i'r plant. Yn ystod y tymor hwn, bydd dosbarth Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1 yn dilyn thema 'Anifeiliaid Anturus', blynyddoedd 2 a 3 yn dilyn thema'r 'Jyngl' a blynyddoedd 4, 5 a 6 yn dilyn thema'r 'Sŵ'. Felly mi fydd llawer o ddysgu am anifeiliaid di-ri.

Yn ystod mis Medi, trefnwyd 'trip rhithiol i'r sŵ' ar gyfer blynyddoedd 4, 5 a 6. Cawsom ddiwrnod llawn sbort yn esgus mynd ar fws, cael picnic tu fas ac yna sesiwn diddorol trwy 'Teams' am gadwraeth o fewn y sŵ gan Sŵ Gaer. Cafodd y plant yna gyfle i holi cwestiynau eu hunain i'r trefnwyr gan ddysgu am sut mae'r sŵ yn cael ei redeg yn ddyddiol.

CYNNYRCH PARC Y PANT
Cross Inn, Cei Newydd

Siop Emma/Siop Fach

Papurau Newydd, Cylchgronau
Cacennau cartref, jam
a phicl cymysg
Bara ffres, llaeth, ffrwythau
a llysiau yn ddyddiol
Ffôn: 01545 560612

Eglwys Sant Marc, Gwenlli

Roedd hi mor braf cael cynnal dau wasanaeth ym mis Medi dan ofal ein ficer y Parch. Bet Davies ar ôl seibiant o 6 mis oblegid y feirws Corona.

Pob dymuniad da i Sara Louise a Craig, Erw Las sydd newydd symud i Gaerdydd. Mae Sara yn dilyn cwrs gradd mewn Meddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd a Craig yn dilyn cwrs gradd mewn Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Craig barhau gyda'i bêl droed gan fod y coleg yn chwarae yng Nghyngrair Cymru.

PENPARC

Ysgol Gymunedol Penparc

Ar ran y Staff a Llywodraethwyr ym Mhenparc, hyfryd oedd gallu dechrau croesawu pawb yn ôl i'r Ysgol o ddechrau fis Medi. Mor arbennig yw gweld bwrlwm a chyffro'r tymor newydd, a phawb wedi'u cyffroi gyda'r newidiadau ar y safle gyda'r dosbarth allanol a'r babell waith.

Diolch enfawr i gymuned a thrigolion Penparc, a gyda chyfraniadau enfawr gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, mae'r paratoadau ar gyfer y Cwricwlwm Newydd yn sicr ar waith, a'r disgyblion wrth eu boddau gyda'r cyfleusterau newydd.

Edrychwn ymlaen at fwy o weithgareddau er mwyn parhau gyda'r esblygiad newydd. Ar ran teulu Penparc, diolch i chi gyd!

BRYNGWYN

Llongyfarchiadaui Marged Evans Albar ar ganlyniadau Lefel A. Pob lwc yn y Brifysgol yng Nghaerdydd.

PONTGARREG

Gwellhad buan

Mae'r pentref a'r ardal i gyd yn drist o glywed am anhwylder Iolo Jones, ac yn dymuno gwellhad buan iddo.

Merched y Wawr

Cynhaliwyd gyfarfod bach tu fas i neuadd Pontgarreg yn ddiweddar ar bnawn dydd Sul Medi'r 13eg. Manteisiwyd ar y cyfle pan oedd y tywydd a rheolau Covid yn caniatau i gwrdd tu allan gan gadw'n dynn at ein "asesiad risg" a anfonwyd at Bwyllgor y Neuadd cyn y cyfarfod.

Daeth 7 i'r cyfarfod. Ymunodd Mr Jon M O Jones a'r cwmni i dynnu lluniau o'r achlysur, ac roedd yn barod i ymateb i gais Carol ap Dewi am ambell stori i'w diddanu.

TALGARREG

Cylch Meithrin a Ti a Fi Talgarreg

Rydym yn rhan o'r cynllun Bag 2 School. Bydd yr elw yn mynd tuag at Cylch Meithrin a Ti a Fi Talgarreg. Dewch â'ch bagiau i Neuadd Goffa Talgarreg, SA44 4XB, Dydd Sadwrn 10fed o Hydref, rhwng 9yb a 2yh. Os am gyflenwad o fagiau'r cwmni cysylltwch gyda Teleri Morris-Thomas neu ebostiwch cylchtalgarreg@outlook.com. Mae nhw'n derbyn yr eitemau canlynol mewn 'cyflwr da': Dillad menywod, dynion a phlant; Esgidiau (parau, wedi'u clymu); bagiau, hetiau, beltiau, gemwaith, sgarffiau a teis; a theganau meddal.

CAERWEDROS

Diolch

Diolch yn fawr iawn i Annie Taylor am fod yn ohebydd gwych dros ardal Caerwedros am 6 mlynedd.Diolch yn fawr i Heledd a Aled am fod yn barod i lanw'r bwlch yma.Pob hwyl gyda'r gwaith.

TANYGROES

Cydymdeimlwn â David Davies a'r teulu Uchel Orwel ar farwolaeth tad arbennig sef Islwyn Davies Pell Orwel.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Rhodri a Eileen Dafis (Castell Nadolig) ar ddathlu eu Priodas Arian.

Ar y 5ed o Fedi eleni, cynhaliwyd taith tractor yn Tanygroes er cof am Judith Davies, o deulu E. Davies & Son Pwllygrifft. Bu farw Judith ym mis Chwefror eleni, ar ôl brwydro canser y pancreas am chwech mis. Penderfyniwyd cynnal taith tractorau hen a newydd i godi arian i Gronfa Nyrsys y Gymuned Meddygfa Emlyn i ddweud diolch am yr holl waith wnaethom nhw yn ddyddiol i ofalu am Judith ac i bobl arall yn sefyllfaoedd tebyg. Ar y diwrnod, daeth 104 o dractorau i Iard Pwllygrifft i ddechrau'r taith aeth o gwmpas Betws Ifan, Beulah, Penparc, Mwnt ac Aberporth cyn cyrraedd nôl ar y iard. Er hyn rydym wedi codi cyfanswm o £6,800 i'r Nyrsys Gymunedol. Hoffai'r teulu ddiolch i bawb wnaeth helpu a chyfrannu at y ddiwrnod i wneud yn un bythgofiadwy.

Yn y lluniau mae Angharad a Rhodri Davies, plant Judith, are eu ddau Massey Ferguson 35.

FFOSTRASOL

Dwy yn dathlu'r 90.

Ym mis Awst dathlodd dwy o gyn-lywyddion Merched y Wawr y Garreg Wen eu penblwydd yn 90 oed.

Mrs Ray Tobias oedd llywydd cyntaf y gangen a bu Mrs Lizzie May Williams yn llywydd am dros chwarter canrif ac yn Lywydd Anrhydeddus y gangen.

Beryl Jones y Llywydd a Marlene Evans yr ysgrifenyddes sydd yn y llun gyda Ray.

Beryl Jones y Llywydd sy'n rhoi'r blodau i Lizzie May.

Penblwydd hapus i Emyr Owen Llysycoed a fydd yn dathlu ei benblwydd yn 80 oed.

Llongyfarchiadau i Emyr a Margaret Owen Llysycoed ar ddathlu eu Priodas Aur.

Merched Y Wawr

Cynhaliwyd cyfarfod o gangen y Garreg Wen yn yr awyr agored.Etholwyd Gwenda Evans yn is-lywydd. Cafwyd noson hwylus yn son am hen hanes yr ardal. 'Roedd hyn hefyd yn gyfle i gasglu'r tal aelodaeth.

GLYNARTHEN A BETWS IFAN

Llongyfarchiadau - i Rhiannon a Nathan, Treherbert, gynt o Maesygrug, Betws Ifan ar enedigaeth eu merch fach Betsan Efa Wyn ar Fedi'r 9fed, wyres i Philip a Jayne a gor-wyres i Dewi a Bernice Pantseiri Fach ac Eleri, Marffo Glynarthen.

I Jayne Evans, Maesygrug, Betws Ifan ar ei chyfraniad i raglen John Roberts 'Bwrw Golwg' ar brynhawn Sul Medi'r 20fed am hanes Glyn Nest sy'n dathlu hanner canrif ers yr agoriad yn 1970. Fel rheolwraig, bu yn trafod hefyd sut mae'r feirws wedi effeithio ar fywyd deiliaid y Cartref, eu teuluoedd ac aelodau'r staff.

Cystadleuaeth Bwgan Brain - Enillwyr y gystadleuaeth eleni ym mhentref Betws Ifan oedd:

1af - Caerllan

2il - Cae Morgan

3ydd - Gorwel

CROESLAN

Croeso i Margaret a Andrew i 18 Bro Gwynfaen – gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Llongyfarchiadau i Gwion Thomas ar pasio ei brawf gyrru.

Dymunwn wellhad buan i bobl y pentref sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar.

CEI NEWYDD

Ffarwelio â Wil Evans

Cydymdeimlir ag Eiryth Evans a'i theulu Talar Wen ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith, Wil Evans, Cerdd y Don yng Nghartref Gofal Alltymynydd Llanybydder. Bu Wil yn aelod ffyddlon ac yn Drysorydd yng Nghapel

Towyn y Cei am nifer o flynyddoedd.Roedd newydd ddathlu ei benblwydd yn 91 oed ym mis Mai. Ei hoff hobi oedd Bowlio,ac fe allai wylio'r holl gemau pe mynnai o barlwr ei gartref uwchben y lawnt fowlio yn Stryd Francis.

LLANLLWCHAEARN

DIOLCH

Dymuna Mervina, Jan, Son a Deni a holl deulu'r diweddar Dilwyn Jones, Ty Cornel, Cross Inn, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad o golli priod, tad a thadcu annwyl a gwerthfawr. Diolch yn ddiffuant am y cardiau, y blodau a'r galwadau ffôn. Diolch i'r Parchedig Carys Ann, i Catrin Bellamy yr Organyddes, i Llinos am y blodau ac i Cenfil a Iona Reeves am drefnu'r angladd.

Croeso mawr i Gymry bach.

Ganwyd merch fach, Eleri Gwen i Gethin a Kate Morgan a chwaer i Llywelyn a Ieuan. Wyres fach arall i Dai a Dilwen Morgan, Glas y Dorlan Cross Inn

Hefyd ganwyd merch fach, Elsi Mair i Helen a Morys Ioan yn Drefach, yr wyres gyntaf i Sian a Gareth Ioan Croesheddyg Newydd, Cross Inn.

LLANARTH

Cydymdeimlwn a Handel Lewis a'r teulu yn Llys Dafydd ar farwolaeth ei wraig Ann Lewis.

Dymunwn wellhad buan i Ray Powell Erw Lon a Denise McLoughline sydd wedi bod yn yr ysbyty.

A Margaret Evans Beechwood ac Ann Evans Cei Bach, y ddwy wedi cael damwin a thorri eu breichiau.

Llongyfarchiadau i blant y pentref sydd wedi bod yn llwyddianus yn eu TGAU a'u LEFEL A .

Dymuniadau gorau i bawb sydd yn mynychu colegau.

CAPEL PENCAE

Cynhaliwyd yr Oedfa gyntaf ers mis Mawrth ar Sul yr Heddwch o dan arweiniad y Parchg Gareth Ioan. Hyfryd oedd gweld cymaint o aelodau wedi dod ynghyd a diolch o galon i'r Parchg Gareth Ioan am wasanaeth arbennig.

Aelwyd gartrefol Gymraeg
Bwyd maethlon
Gofal arbennig
24 awr y dydd
01559 371 293
CARTREF HENLLAN
Perchennog: Mr G T Williams
Rheolwraig: Camwy Griffiths
Is Reolwraig: Faith Wooldridge

GAREJ WAUNLWYD
Gwaith atgyweirio ceir a.y.y.b.
Gwaith o safon uchel bob amser
Sefydledig ers 1992
Waunlwyd, Llangrannog. SA44 6RT
Ffôn: 01239 654931

Efallai nad yw eich banc yn cynnig cyngor – ond rydw i!
Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?
Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad proffesiynol, gallaf eich cynorthwyo!
Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:
Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol
Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref
Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:
Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)
Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP
M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com
www.richardjarman.tpllp.com
true potential wealth management

Y FERWIG

Oherwydd methu cynnal ein sioe flynyddol yn y pentre eleni oherwydd cyfyngiadau'r feirws, aed ati i gynnal cystadleuthau awyr agored ac ar lein. Ymddangosodd dros ugain o fwganod brain yng ngerddi a chloddiau'r ardal ynghyd a nifer o whilberi addurniedig. Diolch i bawb am eu brwdfrydedd a'u parodrwydd i gystadlu.

Enillydd cystadleuaeth y bwgan oedd Sandy McCarthy, Gwynfro, yn gydradd ail, teulu Holmes, Clos y Gwyddil a teulu Carregwen, ac yn drydydd Helen Wells a Efa Glaneri.

Teulu James a Williams, Caeridan a Angorfa ennillodd gystadleuaeth y whilber, gyda teulu Selby, Clos y Gwyddil yn ail a teulu Ladd Clos y Gwyddil yn drydydd.

Ennillwyd y gystadleuaeth ffotograffiaeth gan Elin Evans, Tygwyn, y miwral i oedolion gan Catrin Davies, Gwelfor ac i'r plant gan Mali Lewis. Ela Williams a Martha James wnaeth ennill y garreg wedi addurno.

Jackie a Sara Llwyd Edwards gafodd y pen tost o feirnidu'r gystadleuaeth. Diolch iddynt.

Mae'r gwaith adnewyddu yn yr Hen Ysgol bellach wedi dod i ben, ond yn anffodus, fel pob adeilad cymunedol nid oes modd ei ddefnyddio yn y sefyllfa rhyfeddol sy'n bodoli. Gobeithio daw haul ar fryn yn fuan, a bydd drysau'r adeilad ar agor i groesawu'r gymuned unwaith eto.

Rydym fel pwyllgor y *Gambo* yn cydymdeimlo ag Auriol Williams a'r teulu ar golli priod, tad, a thadcu annwyl sef John Williams, Troedyrhiw, Ferwig.

RHYDLEWIS

Llongyfarchiadau i Mansel Jones, Garreg Lwyd a Glenda Gough,Traleen ar ddathlu penblwydd arbennig. Gobeithio i chi gael cyfle i ddathlu gyda'r teulu.

Cydymdeimlwn ag Anna a Robert Powell a'r teulu ar farwolaeth mam Anna sef Eluned Watkin, Dyffryn Hoffnant, Sarnau. Roedd yn aelod gweithgar yng Nghapel Penmorfa. Cynhaliwyd yr angladd breifat ym mynwent y capel.

ABER-PORTH

Croeso nol!

Ar ol cyfnod hir a ddim gweld plant ar safle'r ysgol, mae'n braf clywed swn chwerthin a dysgu unwaith yn rhagor yn Ysgol Aberporth. Mae tipyn o addasiadau wedi eu gwneud ond mae pawb wedi dangos llawer o hyblygrwydd ac amynedd wrth ymgyfarwyddo gyda'r addasiadau. Diolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Athro Newydd a Dosbarth Newydd!

Yn dilyn twf yn niferoedd Ysgol Aberporth, rhaid oedd agor dosbarth newydd sef dosbarth Dolwen a chyflogi athro ychwanegol. Croeso cynnes i Tomos Green, o Heol y Bowls, Aberporth. Gobeithiwn yn fawr y bydd yn mwynhau yn ein plith.

Hwyl Fawr a phob lwc

Yn dilyn gwasanaeth diflino a chyson o dros deg blynedd ar hugain, daeth amser I ffarwelio â Mrs Carol Davies a fuodd yn gynorthwywraig dysgu yn ein hysgol. Byddwn yn gweld ei heisiau yn fawr yn yr ysgol yn enwedig Canolfan y Don lle buodd yn gweithio rhan fwyaf o'r amser. Dymunwn bob hwyl iddi yn ei swydd newydd gyda'r gwasanaeth ambiwlans.

Cynhaliwyd etholiadau ar ddechrau'r tymor ar gyfer cynghorau yr ysgol sef Criw y Porth.

Dyma'r aelodau newydd: Steffan Davies, Flo Box, Ethan Davies, Hali Harries, Jace Jarrams, Isla Muirhead, Rex Cope, Lucy Robbins, Riley Banks, Jessie Robbins, Olivia Dunnell a Bran Lewis.

Llysgenhadon Efydd: Elis Richardson a Thomas Bamford

Llysgenhadon Gwych: Steffan Davies a Scarlette Legg

Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd!

BLAENANNERCH

Gan fod Ha Bach Mihangel wedi dod "yn llond ei groen ac yn gelwydd i gyd" (fel dywedodd T H Parry Williams) ganol mis Medi, penderfynodd rhai o aelodau'r Capel ei fod yn gyfle rhy dda i'w golli. Mae gennym lawntiau helaeth, trwsiadus o gwmpas y Capel, felly daeth tua dwsin ynghyd, gan gario stôl dan y naill gesail a Chaneuon Ffydd dan y llall, i eistedd allan yn yr haul ac esgus ein bod yn cael "cwrdd". Na, doedd dim organ: gwnaeth CD y tro, ac roedd pawb yn gallu cadw'n ddigon pell wrth ei gilydd i roi tro ar ganu ambell emyn. Fuodd 'na ddim diwygiad y tro hwn, ond roedd cael dod ynghyd bron mor fuddiol.

Cydymdeimlo

Daeth y newyddion trist yn ddiweddar fod Dewi Evans, Gwynfan, Blaenannerch wedi marw. Roedd yn tynnu at 96 oed ac wedi bod mewn cartre ers cryn amser. Bu farw'n dawel yn ei gwsg. Efallai mai fel Dewi Bronallt y bydd nifer o ddarllenwyr hynaf y *Gambo* yn ei gofio, a bu'n gweithio fel saer yn yr ardal am flynyddoedd. Rydyn ni'n cydymdeimlo â'i weddw, Iris, a'r plant Ann (gohebydd y *Gambo* yn Aber-porth), Wyn, Siôn a Siân ac Aled, ac â'i chwaer Muriel.

Llongyfarchiadau i Scott Grota, Cambrian Way ar ei lwyddiant yn arholiadau Lefel A adymuniadau da iddo yn y dyfodol yng Ngholeg Prifysgol Abertawe.

TRESAITH

Ar ôl cystudd hir, trist yw cofnodi marwolaeth un o gymeiriadau hoffus y pentref, sef Keith Lewis, Lluest, Tresaith. Yn aelod o'r heddlu, bu yn blismon yn Aberteifi a'r cylch am nifer o flynyddoedd. Ymgartrefodd y teulu yn hapus yn Nhresaith a datblygodd cyfarthach agos rhwng Keith a phawb ac yn arbennig a phobl ieuanc yr ardal. Cydymdeimlwn yn ddwys a'i briod Margaret, a'r plant Mandy, Louise a Justin a'u teuluoedd.

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Mrs Mari Jones, Penlansaith sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Gofal Brondesbury Lodge, Aberteifi yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Glangwili.

Gall unrhyw un sydd ag anhawster darllen glywed eitemau o'r *Gambo* drwy gysylltu â

Llyfrau Llafar Cymru
Tŷ Llafar, Parc Dewi Sant
Heol Ffynnon Job
Caerfyrddin SA31 3HB
01267 238225
llyfraullafarcymru@carmarthentown.com

FFENESTRI C & H

Cyflenwyr :

- *ffenestri*
- *drysau*
- *estyniadau gwydr unedau gwydr (dwbl a sengl)*

mewn PVCu, alwminiwm a phren caled

Ffoniwch Huw Brown: (01239) 858912 (Nos)

DAI LEWIS

Cysylltwch â'r Arbenigwyr
(sy'n Gymry Cymraeg)
os ydych am
WERTHU
neu BRISIO
eich Fferm, Tyddyn,
Tŷ neu Fwthyn.
Ffoniwch...
Llandysul (01559) 36 34 01
Castell Newydd Emlyn
(01239) 710 481

SHILI-GA-BŴD

Roedd llwyn bach gan Mam hyd y diwedd.
Heb arno na blodyn na chnawd,
Un difalch a hollol werinol
A alwai yn shili-ga-bŵd.

Gofalai amdano fel plenty
Bob tywydd, boed yn oer neu yn frwd,
Gan ddod â'i thicanter a'r cyffur
A syched y shili-ga-bŵd.

Pan alwai rhyw ffrind a rei siwrnai
Roedd hi'n ddi-gyfnewid ei mwd,
Anrhegai bob un cyn ymadael
Â sbrigyn o'r shili-ga-bŵd.

Aeth Mam yn fethiannus gan henaint
A'r llwyn a ymgrymodd i'w gwd,
A surodd y sawr a'r siriioldeb
A gariai y shili-ga-bŵd.

Fe sychodd y gwraidd o dor-calon
A chrinodd y dail yn eu pwd,
A phan aeth ei geidwad i'r beddrod
Aeth yntau – y shili-ga-bŵd.

Isfoel

Roedd gennyf ddwy famgu – mam fy mam (Elen Tanycastell) a mam fy nhad (Esther Trecregin a Castle Hall). Hefyd yr oedd Mamgu na welais erioed, Mary, hen famgu a gwraig Jeremiah Jones a mam y nythaid o ddeuddeg o blant y Cilie.

Cadwai y tair ohonynt lwyn o'r Shili-ga-bŵd yn eu gerddi. Cymerent ofal arbennig ohonynt gyda dŵr gulch sebon (dim cemegau) a 'magnesium sulphate' (Epsom Salts) yn rheolaidd. Hefyd byddent yn tyfu planhigyn o'r shili mewn pot bychan a'i roi yn ffenestr agored y llaethdy. Byddai ei arogl arbennig yn cadw cylion a chlêr draw! Ac yn rhyfedd iawn, wedi i'r tair mamgu gael eu galw 'gartref', fe drigodd y tri llwyn o'r shili-ga-bŵd yn eu gerddi.

Mae gennyf ddau lwyn ym Mryndewi ac rwy'n hoff o roi sbrigyn i ymwelwyr sy'n galw. Yn ddiweddar fe alwodd Dei Tomos (y darlledwr) a'i wraig Janice i gydymdeimlo â ni wedi i ni golli Aures. Rhoddais sbrigyn o'r shili i Janice. Roedd ganddi ardd ei hunan yn Nant Peris, Gwynedd gyda llwyn o'r shil-ga-bŵd. Tystiai fod y shili yn gwreiddio yn hawdd o'i roi mewn llestr o ddŵr glân a gloyw.

Ma Anton a Dawn Schiavone (a hithau'n gyfnither i Aures) wedi galw yn aml ac wedi cael sbrigyn o'r shili-ga-bŵd. Cefais alwad wrthi gyda chyfarchion serchog a'r wybodaeth fod y sbrigyn wedi gwreiddio yn iachus ac yn tyfu.

Jon Meirion

EDAF
Emyr Davies A'i Fab Cyf
Gwaith Adeiladu a Pheirianeg Sifil
Bwlchmawr,
Ffostrasol,
Llandysul,
Ceredigion,
SA44 4TD
Ffôn a Ffacs: 01239 858 918
Symudol: 07971 004 582
Ebost: emyr@talk21.com
Cysylltwch a ni am unrhyw fath o waith adeiladu!
Gwasanaeth Cyfeillgar a Proffesiynol

DALIER SYLW

Mae rheolau'r gyfraith ar gyhoeddi lluniau o blant, boed ar bapur neu ar y We, wedi eu tynhau. Felly mae'n bwysig iawn bod pob cyfrannydd neu ohebydd sy'n anfon llun ag enw plentyn i'w cynnwys yn *Y Gambo* yn sicrhau ei fod wedi cael caniatâd rhieni neu ofalwyr y plentyn i wneud hynny. Ni fydd *Y Gambo* yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw fethiant i wneud hyn.

Ffrind yn Holi Ffrind

Y mis diwethaf fe enwebwyd Maldwyn Lewis i ateb rhai cwestiynau gan Tony Hack, Rhydlewis.

Tony – *Rho bach o dy hanes yn Ysgol Coedybryn ac Ysgol Ramadeg Llandysul lle roedd y ddau ohonon ni'n gyd-ddisgyblion. Beth yw dy atgofion gorau am y ddwy ysgol ?*

Maldwyn – Rhaid dweud nid oeddwn yn hoffi mynychu'r Ysgol, Gynradd nac Uwchradd, fel llawer i beth arall mewn bywyd mae rhaid ymdopi a dylsem wedi cymryd sylw o'r geiriau 'yr hen a wŷr, a'r ifanc a dybia'. Dywedwyd droeon wrthyf 'stica yn yr ysgol' ! Roedd yr athrawon a'r cyd ddisgyblion yn iawn a braf cael dweud roeddwn yn un o ddisgyblion T. Llew fel tithau. Wrth edrych yn ôl lle i ddiolch sydd gennym am y teithiau i Plas y Bronwydd a Gernos a dysgu am y bywyd gwyllt a hanes lleol. Heblaw am T. Llew yn defnyddio ni fel 'guniea pigs' ar gyfer ambell i nofel, gwyddbwyll oedd y peth mawr o fewn yr Ysgol ac rwyf yn aml iawn yn defnyddio techneg meddwl y gêm bwrdd yna bob dydd mewn busnes wrth ddatrys problemau a gweithio allan strategaeth.

Tony, wyt ti yn cofio T. Llew yn colli ei dymer pan oedd yn methu ffeindio ei sbectol a ninnau i gyd yn y dosbarth yn syllu arnynt ar ei dalcen, ni yn cael y bai am guddio y sbectol ac yna ei law yn taro'r ford a'i sbectol yn cwympo oddi ar ei dalcen ar ei drwyn; tawelwch mawr wedyn !

Yn Ysgol Ramadeg Llandysul roedd y dyddiau cyntaf yn eithaf brawychus wrth i ni gamu o Ysgol fach wledig i ganol Ysgol fawr, dyma brofiad mawr mewn bywyd. Erbyn heddiw caiff y disgyblion dyddiau pontio, ond yw hynny mor werthfawr iddynt.

Rhaid dweud mi wnes fwynhau yr amser yn y dosbarth Gwaith Coed a Mr Walter Thomas yn Athro, rwyf a pharch mawr iddo; ymlaen a fi wedyn i'r chweched dosbarth, ac roedd yn olreit, roeddem yn cael rhyddid i weithio fel y dymunem yn y gweithdy Gwaith Coed, cafwyd llawer iawn o brofiadau yno hefyd. Mae teithiau Mr David Peregrine i'r cyfandir yn aros yn y cof.

Tony – *Beth wnaeth i ti aros yn dy ardal leol?*

Maldwyn – Pe byddai Mr Walter Thomas ac ambell un arall wedi cael ei ffordd, posibl iawn llwybr gwahanol fyddai wedi digwydd. Fe gefais fy nerbyn i Goleg Shoredich i fynd ymlaen gyda chrefft a mynd yn Athro, ond ar y pryd, nid oedd gennyf yr hyder i fynd; cefais gynnig wedyn i fynd i Goleg yn Telford i ddilyn cwrs gwneud Dodrefn, ond aros adref wnes i; roedd tynfa gweithio gyda'r bysys ac yn y garej. Wedi byw yn sŵn y garej a bwrlwm y bysys, dilyn y trywydd hynny wnes i. Gan weithio i fy ewythr ac hefyd helpu fy Nhad yn ei alwedigaeth fel Ymgymerwr Angladdau. Nid wyf yn edifar, rwyf wedi cwrdd â phobl arbennig iawn ac wedi cael profiadau bythgofiadwy.

Tony – *Rwyt ti bellach yn berchen ar fusnes Ymgymerwr Angladdau. Beth fyddet ti'n ystyried sy'n bwysig wrth wneud y gwaith pwysig hwn?*

Maldwyn – Pan fu farw fy Nhad yn 1993 daeth trobwynt yn fy hanes, nid oedd Dad yn hyderus fod dyfodol i'r Busnes Angladdau, gan fod angen buddsoddi gymaint i gael adnoddau pwrpasol. Geiriau fy Nhad oedd "pan fyddaf wedi mynd o'r ddaear hon anghofia y busnes angladdau." Weithiau mae dyn yn teimlo yn ei galon rhywbeth anesboniadwy, digwyddodd hynny y noson bu Dad farw ac mi benderfynais fy mod yn mynd i gadw yr alwedigaeth arbennig hon i fynd. Gan gofio mai nid 'Job' fel Gwaith 9-5 mohono !

Roeddwn wedi dysgu llawer gyda Dad, buan iawn dysgais fod y canlynol yn holl bwysig i'r alwedigaeth: Gwrando ar y teulu sydd mewn galar a rhoi amser iddynt; parchu y teulu a'r ymadawedig i'r eithaf; bod yn onest gyda'r teulu ac esbonio iddynt os nad ydych yn cytuno gyda'i safbwynt; nid oes yr un angladd yr un peth, mae amgylchiadau pawb yn wahanol. Rwyf yn dysgu bob dydd ac yn ceisio gwella ar ein safonau yn gyson. Mae galar yn effeithio'r cyfoethog a'r tlawd, y crefyddol, y di-grefydd, braint yw cael teuluoedd i ymddiried ynoch a rhannu eu gofidiau, gan gofio y pwysicrwydd o barchu cyfrinachedd. Rwy'n atgoffa fy hunan sut oeddwn i yn teimlo wrth golli un annwyl ac yn cofio hyn wrth gynorthwyo pawb.

Mae yn bwysig hefyd i mi ddweud DIOLCH i'r teuluoedd hynny sydd wedi ymddiried ynof i gario allan gwasanaethau, gallwn ddweud heddiw ein bod wedi buddsoddi mewn adeilad pwrpasol 'Afallon' ac adnoddau o'r radd flaenaf er cynnig gwasanaeth i bobl ein Cymuned.

Tony – *R'yn ni wedi bod trwy gyfnod anodd yn y misoedd diwethaf oherwydd Covid 19. Fe fuest ti'n siarad ar Radio Cymru ynghlyn â hyn. Ar beth, yn union, y sylwest ti?*

Maldwyn – Mae y cyfnod Pandemig yma yn sicr wedi ysgwyd pawb; gelwir y feirws yn COVID 19 a'r rhif undeg naw yn cyfeirio at y flwyddyn 2019 pan ddaeth y feirws yn amlwg. Rwyf innau a llawer un arall o'r farn fod y Feirws yn ein plith yn lleol ers diwedd y flwyddyn diwethaf. Dyna pryd y cafwyd nifer o bobl yn achwyn o ffliw trwm iawn a nifer o farwolaethau yn uchel iawn yn mis Tachwedd a Rhagfyr 2019. Roedd Ymchwilwyr y cyfryngau o'r un farn ac felly fe fuont yn holi mi ac eraill ar y pwnc. Y ffaith yw, ni allwn wneud llawer am y gorffennol ond erys y peryg yn ein plith ac rwyf yn erfyn ar bawb i gymryd gofal trylwyr o'u hunain a pheidio teithio heb fo gwir angen, gan gofio cadw pellter, hunan ynysu a glendid. Mae pobl ardal *Y Gambo* wedi goroesi llawer ac fe fyddwn yma eto yn gadarn, cryf a Chymreig.

Tony – *Pam wyt ti'n credu ein bod wedi safio rhag gormod o farwolaethau yng Ngheredigion mor belled?*

Maldwyn – Nifer o ffactorau wedi helpu hyd yma, pobl wedi gwrando ar y canllawiau, pobl wedi bod yn ofalus i beidio teithio yn ddi angen. Roedd y cyfnod cloi wedi sicrhau nid oedd twristiaeth na myfyrwyr yn mynd mewn ac allan o'r Sir, fe fuom yn ffodus iawn o gael hâf arbennig o ran tywydd a phobl yn gallu mynd allan. Rhaid rhoi diolch hefyd i weithwyr gofal, cartrefi gofal, siopau lleol ac ati, am eu holl ymdrechion.

Tony – *Pan mae amser sbâr gyda ti, beth yw dy ddiddordebau?*

Maldwyn – amser sbâr Tony ?? beth yw hwnnw !, mae gennyf ddiddordeb mewn Hanes, rwyf yn ddarllenwr mawr, gan ddarllen am hanes fy ardal a chymeriadau y fro yn arbennig; y llyfr sydd wedi fy mhlesio ar hyn o bryd yw *Hâf bach Mihangel* – cyfrol er cof am Kate Davies, Maesymeillion sef hanes ardal Prengwyn a Dyffryn Clettwr, gallaf ei argymell i holl ddarllenwyr y *Gambo*. Rwyf hefyd yn ail wneud hen dractor 'Ford 4000', mae gennyf tipyn o hen fotobeics a chwpwl o hen geir, byddaf hefyd yn ceisio gwneud amser sydd mor bwysig i fod gyda fy ngwraig Carys Ann a 'nheulu. Gan ein bod yn aelodau am oes o'r 'Ymddiriedolaeth Genedlaethol' – 'y National Trust' rydym yn mwynhau ymweld a'u heiddo.

Tony – *Pwy hoffet ti ei enwebu ar gyfer y golofn hon y mis nesaf?*

Maldwyn – ffrind arall adnabyddus i'r ddau ohonom sef Huw Owen Thomas neu Huw Plas, Glynarthen sydd wedi teithio fel peiriannwr a morwr o amgylch y byd sawl gwaith.

NODYN WRTH Y TRYSORYDD
Dalier Sylw: Dylai pob siec o hyn allan fod yn daladwy i *Y Gambo*
Mae'r nodyn hwn yn diddymu y neges yn rhifyn Ebrill 2019.

LEWIS Gwasanaeth Angladdau Funeral Services
Maldwyn Lewis ***Ymgymerwr Angladdau***
Afallon, Penrhiw-pâl, Llandysul
Ffôn 01239 851 005 neu 07760 778 514
Yn gwasanaethu ardal Y Gambo
Cwmni teuluol yn cynnig gwasanaeth a chyngor proffesiynnol mewn profedigaeth ers dwy genhedlaeth
Perfect Choice Funeral Plans · Avalon · SAIF · Golden Charter
www.lewisfunerals.co.uk

Tabernacl, Aberteifi
Os am gynnal bore coffi neu achlysur tebyg, mae'r festri ar gael i'w llogi.
Am fanylion pellach, cysylltwch â'r ofalwraig
01239 613514

Graham Jones
Gwasanaethau Cyfrifiaduron
★ Datrys Problemau a Trwsio Cyfrifiaduron
★ Ymweliadau yn y Cartref o £45
★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a Pherifferolion ar Werth
★ Gwasanath Adfer Data, Lluniau a Ffeiliau
★ Gwasanaeth Dylunio Gwefannau
Ffôn: 01545 560776
neu: 07715740777
www.tynici.com graham@tynici.com

CORNEL Y PLANT

Dyma'r atebion i bosau mis Gorffennaf a Medi:

Pos 1

1.Tricsi a Dicsi; 2.Leah Owen; 3.6 llyfr; 4.Eliffant yn Eistedd ar Enfys; 5.Myrddin ap Dafydd; 6.Gwasg Carreg Gwalch; 7.Meleri Wyn James; 8.Odl,Odl/Gair am Aur/Dyma Fo Dyma Fe/Trio!Trio!Trio!; 9.£5.99; 10.Dosbarth Miss Prydderch a Dewin y Dwr; 11.Medi Jones-Jackson; 12.£9.99.

Pos 2

Pethau yn yr ardd – pridd, coed, blodau, hadau, dail, porfa, fforch, rhaw, whilber, sied, tŷ gwydr.

Roedd Eli-May o Brengwyn, Mari Anne o Lanelwy ac Abigail o Ynys Môn wedi anfon atebion cywir. Yn ennill y tocyn rhodd y mis hwn mae **Mari Anne o Lanelwy.**

Pos mis Hydref

Dw i'n siwr eich bod yn hoffi'r cyfle i fyrstio balwnau! Wel dyma gyfle i chi!

Edrychwch ar y rhifau sydd ar y balwnau. Gallwch fyrstio rhai sydd â rhifau yn rhannu â 9. (Tabl 9) Hefyd chwiliwch am odrifau a'u byrstio. Fe fydd rhai balwnau ar ôl. Beth yw cyfanswm y rhifau hynny? Pob lwc. Cyfle i ymarfer tabl 9 hefyd!

Anfonwch yr ateb at Lynda Mula, Tyrddol, Blaenannerch, Aberteifi SA43 2AJ neu lyndamula@yahoo.co.uk

Siop a Swyddfa'r Post Plwmp

Plwmp, Llandysul, Ceredigion. SA44 6HJ
01239 654548
plwmp@yahoo.co.uk

CR — CENFIL REEVES A'I FAB —
TREFNWYR ANGLADDAU
(Cenfil a Iona Reeves)

Busnes teuluol preifat yn cynnig gwasanaeth gyda pharch ac urddas

Capel Gorffwys Preifat

SAIF INDEPENDENT FUNERAL DIRECTORS — Golden Charter Funeral Plans — National Association of Funeral Directors

Garreg Wen, Talgarreg, Llandysul, Ceredigion. SA44 4XB
Ffôn: **01545 590254** E-bost: cenfil@bancsioncwilt.co.uk
www.cenfilreevesaifab.co.uk

Cost hysbysebu yn Y Gambo

Un golofn (6 x 6cm)
£5 y mis neu £45 y flwyddyn
Dwy golofn (12.5 x 6cm)
£9 y mis neu £85 y flwyddyn
Un golofn (6 x 12.5cm)
£9 y mis neu £85 y flwyddyn
Dwy golofn (12.5 x 12.5cm)
£15 y mis neu £140 y flwyddyn
Os yn fwy na 12.5cm o hyd
£1 am bob cm ychwanegol.
Pris hanner tudalen (19 x 13.5cm)
£35 y mis
Tudalen gyfan (19 x 27cm)
£70 y mis

Colofn Elin Jones

Hydref 2020

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod digon anodd i bawb, ac mae wedi bod yn gyfnod prysur iawn i mi hefyd. Ond wrth i nifer fawr o fusnesau ddychwelyd i'r 'normal newydd', mae yn rhoi gobaith newydd i ni.

Er hyn, mae angen cynlluniau penodol i ddenu meddygon teulu i weithio mewn meddygfeydd yng Ngheredigion. Mae'r pandemig coronafeirws wedi rhoi pwysau ychwanegol ar feddygfeydd lleol oedd eisoes dan bwysau. Mae nifer o'r meddygfeydd yng Ngheredigion yn gweithredu heb ddigon o staff meddygol ac mae angen gwneud mwy ar frys i wynebu'r diffyg hwn.

Dwi wedi galw ar y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru i roi pecyn at ei gilydd i gynyddu'r nifer o ddoctoriaid sy'n gweithio yng Ngheredigion, ac mae angen canolbwyntio ar gynllun i ddenu doctoriaid i lenwi'r llefydd gwag yn y meddygfeydd.

Mae'n bosib bydd nifer ohonoch hefyd wedi sylwi bod y gwaith o ddiogelu Wal Tryweryn ger Llanrhystud wedi dechrau yn ddiweddar. Mae'r tir wedi ei lunio a'i dacluso. Roedd rhaid cwympo coed oedd a chlefyd arnynt. Mae'r sgaffaldie wedi eu codi ac fe fydd y gwaith cerrig yn dechrau'r wythnos nesaf, gan ddefnyddio'r hen gerrig sydd yno'n barod. A na dyw hi ddim yn wir taw McDonalds drive-thru sy'n dod yna, er fod bobol yn stopio i ofyn be' sy'n digwydd!!

Hefyd efallai i chi glywed mod i wrthi'n cerdded 60 milltir mis yma i godi arian tuag at Uned Cemotherapi newydd Ysbyty Bronglais. Hyd yma dwi wedi cwblhau 24milltir ac felly mae ishe bwrw ati i gered! Dwi hefyd wedi sefydlu tudalen justgiving os ydych chi am gyfrannu. A mi fydda i yn torri pob greddf Cardi yn fy nghorff a matsio pob punt lan at y targed. Bant â'r cart!

YN EISIAU

Angen Gohebydd yn ardaloedd **Coedybryn, Llandygwydd**

Mae'r *Gambo* yn dibynnu ar ohebyddion lleol i gasglu newyddion yr ardal ac i dynnu sylw at beth sy'n digwydd yn ein bro. Rydym yn wir ddiolchgar i bawb am eu gwaith, achos hebddyn nhw ni fyddai ein papur bro yn bodoli!

Felly, a oes 'na rywrai sy'n byw yn yr ardaloedd uchod i lenwi'r bylchau? Peidiwch â phoeni gormod am eich ysgrifennu - gwaith Golygydd y Mis yw rhoi trefn ar bethe! Hanes eich ardal chi sydd yn bwysig. Felly, os oes diddordeb gennych, cysylltwch ag aelod o'r Pwyllgor Gwaith drwy ffôn, e-bost neu anfon llythyr atyn nhw.

CLWB 500

MIS MEDI

£30	Tegwen Parry, Tafwys, Cross Inn
£20	Rhiannon Elias, Ffynnongudd, Beulah
£15	Carol Davies, Maesydeintur, Henllan
	Eirwen Brown, d/o Gyffionos, Caerwedros
£10	Ann Rees, Arael, Aber-porth
	Eirwyn Morgan, Coed-y-bryn, Synod Inn
	Emyr Owen, Glyniscoed, Ffostrasol.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael i goffrau'r *Gambo*:

£200	**Dafydd a Lilian Jones, Aberporth**
£20	**Egryn ac Isobel Jones, Llanarth**
£20	**Gerallt a Eirian Evans, Arthach, Blaencelyn**
£20	**Anhysbys**

Diolch i bawb am eu rhoddion yn enwedig ar adeg pan nad oes arian yn dod i mewn trwy werthiant.

Annwyl Gyfeillion,

Fel miliynau o bobl ledled y wlad efallai eich bod wedi gwylio 'Extinction: the Facts' gan David Attenbrough ar BBC yn ddiweddar. Roedd yn dangos, yn greulon o blaen, effaith drychinebus y mae gweithredoedd dynol yn ei chael ar y byd naturiol. Canolbwyntiodd yr ychydig funudau olaf ar sut, trwy ymdrechion trawsffiniol ar y cyd, y mae gan ddynolryw'r gallu i ddysgu o'r gorffennol er mwyn creu dyfodol gwell.

Gobeithio y byddwch wedi clywed am Wrthryfel Difodiant (Extinction Rebellion neu 'XR'). Gobeithio y cytunwch â'n nodau o annog llywodraethau ledled y byd i ddweud y gwir am drychineb yr hinsawdd ac i weithredu nawr i amddiffyn y dyfodol trwy hwyluso'r gweithredu brys effeithiol sydd ei angen yn daer. Ffordd bosibl ymlaen yw trwy ddeddfwriaeth gyda'r Mesur Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol a gyflwynwyd yn ddiweddar yn San Steffan, gyda chefnogaeth ein AS lleol Ben Lake.

Fodd bynnag, wrth i'r argyfwng hinsawdd gael effaith gynyddol ar yr amgylchedd ac ar fywydau pawb, mae llawer o ddinasyddion pryderus eisiau dweud eu dweud i geisio sicrhau newidiadau buddiol yn eu cymunedau eu hunain. . . waeth pa mor fach. Mae XR Aberteifi'n awyddus i hwyluso hyn, gan helpu cymunedau i ddatblygu eu Cynlluniau Gweithredu eu hunain

Mae gan Wrthryfel Difodiant brofiad o hwyluso sgyrsiau o'r fath. Ym mis Mehefin, cynhalion ni gynhadledd ar-lein ar y cyd ag ein Haelod o'r Senedd, Elin Jones, gan ganolbwyntio ar ddyfodol cynhyrchu bwyd, ffermio a defnydd tir yng Ngheredigion, ac ym mis Gorffennaf cefnogwyd creu Gwytnwch Cymunedol Ffynnone yng ngogledd ddwyrain Sir Benfro. Mae'r ddau wedi arwain at gydweithrediadau tuag at ddyfodol mwy disglair.

Os bydd diddordeb gan eich cymuned, grŵp neu fudiad, man cychwyn posibl fyddai un o'r sgyrsiau rydyn ni'n eu rhestru isod, ond efallai bod gennych chi syniadau eraill ... neu efallai yr hoffech gael sgwrs gychwynnol, i drafod eich meddyliau neu'ch pryderon. Ar hyn o bryd, wrth gwrs, byddai'r holl sgyrsiau'n cael eu rhoi trwy Zoom.

Beth bynnag fo'ch meddyliau neu'ch teimladau, byddem yn falch o glywed gennych chi.

Dymuniadau gorau,

XR Aberteifi

cardigan@xrcymru.org

Rhai o'r sgyrsiau y gallwn eu cynnig:

- Sgwrs swyddogol Gwrthryfel Difodiant. Mae'n broffesiynol ac yn addysgiadol: 'Yr Argyfwng Hinsawdd: Anelu at Ddifodiant (a beth i'w wneud amdano)'. Mae'n dechrau gyda chyflwyniad darluniadol sy'n cymryd tua 30 munud, yn esbonio argyfyngau'r hinsawdd ac ecolegol a'r hyn y gallwn ei wneud yn eu cylch. Yna mae amser i drafod. Gellir rhoi'r sgwrs yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- 'Prydain Carbon Sero: sut byddai hi?' Sgwrs yn Saesneg yn rhoi golwg ar rai o'r ffyrdd y gellir cyflawni Carbon Sero a allai ddod â llawer o fuddion i'n bywydau yn ogystal ag i'r hinsawdd.
- 'Diwrnod ym mywyd protestiwr Gwrthryfel Difodiant'. Sgwrs ysgafn yn Saesneg am gynllunio ac yna ail-gau Oxford Circus a'i ganlyniadau - gan gynnwys ''cael fy nhorri allan o glo braich ag 'angle grinder' a chael fy arestio mewn modd gwâr iawn.''
- 'Gwytnwch cymunedau' - trafod cynlluniau gweithredu lleol ar gyfer delio â newid yn yr hinsawdd. Arweinir y drafodaeth yn Saesneg neu'n ddwyieithog

JAMES BOND A'R GAMBO !

Roedd sgwrs ddifyr ar B.B.C Radio Cymru ar raglen ddyddiol Aled Huws yn trafod y manylion isod sydd newydd eu datgelu mewn papurau swyddogol yn Llundain ac ar y We.

Mae'n debyg fod James Albert Bond yn sbïwr go iawn a buy'n cyflawni y 'gwaith' hwn dros Lywodraeth Prydain yng Ngwlad Pwyl, am flwyddyn. Yn ôl Ian Fleming, yr awdur a chrëwr y cymeriad, roedd cymydog iddo o'r enw James Bond yn adarwr afieithus. Enw cartref Fleming ar ynys Jamacia yn y Caribî oedd 'Goldeneye' a ddefnyddiwyd fel teitl un o'r ffilmiau enwog ym 1995.

Ar y pryd roedd Jon Meirion yn olygydd ar *Y Gambo*. Un o'i syniadau oedd cael llun (ac efallai) stori am James Bond yn ffilmio ar draeth Penbryn. Clywodd fod yr uned ffilmio lawr ar y traeth ac yn y cyffiniau yn ffilmio un olygfa arbennig. Aeth i lawr â'i gamera i dynnu lluniau o'r gweithgareddau 'cudd'. Ond pan gyrhaeddodd y maes parcio ger fferm y Penbryn roedd cylch 'haearn' o warchodwyr wedi amgylchynu'r ardal. Nid oedd neb yn cael mynd ymhellach.

Deallwn fod teulu'r ffermdy wedi derbyn gwahoddiad i'r Odeon, Leicester Square yn Llundain i weld dangosiad cyntaf o'r ffilm 'Die Another Day' (2001) a phenwythnos mewn gwesty. Chwarae teg iddynt!

Roedd llawer o drigolion lleol yn awyddus wedyn i weld ble oedd y ffilmio ar draeth y Penbryn yn ymddangos ar y ffilm. Drwy'r ffilm nid oedd sôn amdano! Ar ddiwedd y ffilm gwelir hofrennydd yn sgubo dros fôr glas ac yn sydyn yn cyrraedd traeth o dywod melyn y Penbryn. Fry ar y bryn mewn rhyw fath o adeilad tebyg i deml, roedd Pierce Brosnan (James Bond) gyda'i wejen (Halle Berry) yn cofleidio i ddiweddu'r stori a'r ffilm. Efallai os byddai golygydd *Y Gambo* wedi dod mewn cwch pysgota o gyfeiriad y môr, y byddai wedi cael sgŵp!! Ond roedd gofalwyr o'r cyfeiriad hwnnw hefyd, mae'n debyg.

Y GAMBO A'R GOLYGYDD DAN WARCHAE!

Oedfa Datgorffori Eglwys Annibynnol Towyn, Ceinewydd

Achlysur trist iawn i dref Ceinewydd a'r fro gyfagos oedd oedfa datgorffori Eglwys Annibynnol Towyn a gynhaliwyd ar fore Gwener, 25ain o Fedi. Ers 1861 bu'r capel, a godwyd ar dir fferm y Towyn, yn nodwedd amlwg o dirwedd y Cei ac yn ddylanwad cadarn ar fywyd ei phobl. Tystiodd yr eglwys a gyfarfu yno yn loyw iawn i werthoedd teyrnas Crist am yn agos i 160 o flynyddoedd. Fodd bynnag, daeth tro ar fyd a phenderfyniad diweddar y criw bach ffyddlon oedd mai cau'r drws oedd eu hunig ddewis bellach.

Oherwydd amgylchiadau'r haint cyfredol criw dethol ddaeth ynghyd i gynnal yr oedfa olaf hon – aelodau'r eglwys, cynrychiolwyr eglwysi cyfagos a chynrychiolydd o Gyfundeb Ceredigion. Llywyddwyd y gwasanaeth gan Gareth Ioan a dreuliodd gyfnod yn weinidog ar leoliad gyda'r eglwys yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cafwyd darlleniadau gan John C. Price, ar ran aelodau Towyn, a Gwendoline Evans, ar ran Capeli Cylch y Cei. Cyflwynwyd gweddi bwrpasol gan Karine Davies, Cadeirydd Cyfundeb Ceredigion.

Cyflwynwyd hanes yr achos gan Neville Evans, un a fu, ynghyd a'i deulu, yn gefn mawr i'r achos yn Nhowyn dros y degawdau mewn amryfal swyddi a swyddogaethau. Cafwyd crynodeb hynod effeithiol ganddo o'r hanes – sut ddaeth rhai cannoedd o bobl leol ati i godi capel Annibynnol yng Ngheinewydd yn ferch i'r fam-eglwys ym Maen-y-groes, twf yr eglwys dros gyfnod o ganrif a'r trai araf dros yr hanner canrif diweddar. Roedd yn ddarlun teimladwy a dalodd deyrnged gwbl addas i'r cwmwl tystion a gynhaliodd yr achos cyhyd.

Darllenwyd cyfarchion a dderbyniwyd gan Eleri Betts, wyres i'r cyn-weinidog y Parch T. Orchwy Bowen; gan Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; a chan Sue Passmore, hanesydd lleol a chyfaill oes i'r eglwys. Cafwyd cyfraniadau llafar hefyd gan Vernon Jones, ar ran Capeli Cylch y Cei, Gwendoline Evans, ar ran Eglwys Nanternis a John C. Price, ar ran aelodau Towyn.

Yn dilyn anerchiad pwrpasol gan Gareth Ioan a anogodd yr aelodau i gario dŵr bywiol eu tystiolaeth o ffynnon Towyn i ddyfrio eglwysi newydd, darllenwyd y datganiad datgorffori. Cludwyd Beibl yr eglwys o'r adeilad gan Neville Evans a thraddododd Gareth Ioan y fendith, cyn cau drws capel y Towyn am y tro olaf.

Er gorfod cau'r drws ar gyfnod o hanes, bydd dylanwad tystiolaeth Eglwys Annibynnol Towyn yng Ngheinewydd dros y ganrif a hanner diwethaf yn parhau tra bo tonnau'n torri ar Draeth Gwyn.

Ymgyrch aelodaeth Urdd Gobaith Cymru 2020-2021

Negeseuon cyfryngau cymdeithasol i gefnogi

Facebook	Twitter	Instagram
Ydych chi wedi ymaelodi â'r Urdd eto? Ymunwch â phobl ifanc ledled Cymru a manteisiwch ar lwyth o gyfleoedd dros y flwyddyn i ddod! www.urdd.cymru/ymuno	Ydych chi wedi ymaelodi â'r Urdd eto? Ymunwch â phobl ifanc ledled Cymru a manteisiwch ar lwyth o gyfleoedd dros y flwyddyn i ddod! ! urdd.cymru/ymuno	Ydych chi wedi ymaelodi â'r Urdd eto? Am £9 am y flwyddyn gyfan, byddwch yn ymuno â miloedd o bobl ifanc ledled Cymru am gyfleoedd mewn chwaraeon, y celfyddydau, yr Eisteddfod, digwyddiadau digidol a llawer mwy! Ewch i'r linc yn bio @urddgobaithcymru i ymaelodi.
Eisiau cefnogi'r Urdd? Ymaelodwch eich plentyn am £9 am flwyddyn o gyfleoedd cyffrous a chefnogi'r Urdd trwy gyfnod anodd ar yr un pryd. www.urdd.cymru/ymuno	Trwy ymaelodi eich plentyn â'r Urdd cewch flwyddyn o gyfleoedd cyffrous a chefnogi'r Urdd trwy gyfnod anodd ar yr un pryd. urdd.cymru/ymuno	
Wrth i ni gyd arfer â'r 'normal newydd', mae'r Urdd hefyd wedi addasu eu gweithgareddau trwy gynnig mwy o gyfleoedd digidol cyffrous i aelodau dros y flwyddyn i ddod. www.urdd.cymru/ymuno	Wrth i ni gyd arfer â'r 'normal newydd', mae'r Urdd hefyd wedi addasu gan gynnig mwy o gyfleoedd digidol cyffrous i aelodau nag erioed. . urdd.cymru/ymuno	
Welsoch chi fathodyn aelodaeth yr Urdd eleni? Arno mae'r symbol o obaith sydd wedi dod i olygu cymaint i ni gyd dros y misoedd diwethaf. Ymaelodwch ar eu gwefan heddiw. www.urdd.cymru/ymuno	Ydych chi wedi ymaelodi â'r Urdd a derbyn eich bathodyn aelodaeth eto? Ewch i wefan yr Urdd i ddysgu mwy ac i ymaelodi! www.urdd.cymru/ymuno	Ydych chi wedi gweld bathodyn aelodaeth yr Urdd eleni? Ewch i'r linc yn bio @urddgobaithcymru i fod yn rhan o'r Urdd eleni.

TAFARN
FFOSTRASOL
Am fwyd a diod da
mewn awyrgylch gartrefol
dewch i
DAFARN FFOSTRASOL

Cware
(01239)
881282
Trefigin
Olew
(01239)
881630
TYWOD GRAEAN CERRIG BLOCS
TANWYDD TŶ DISEL FFERM DISEL LIW BOLEW
ABERTEIFI SA43 3BL

Tonwen James
Ymgynghorwr
Yswiriant
"Old Oak"
Busnes - Fferm
Tŷ - Modur
Polisïau arbennig at
bob pwrpas
Ffôn: 01239 613213

ARWYN VOBE
ACCOUNTANCY LTD.
ACCA
CYFRIFYDD ARDYSTIEDIG SIARTREDIG
Maesowen, Rhydowen, Llandysul, Ceredigion, SA44 4PY
136 Maesglas, Aberteifi. SA43 1AS
Ffôn: 01239 571005 Symudol: 07557 448234 E-bost: arwyn@avaccountancy.cymru
❖ Cyfrifon Blynyddol ac Interim
❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau
❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW
❖ Cyflogau a CIS
❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion
Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!
Ffoniwch ni ar 07557 448234 neu
ebost arwyn@avaccountancy.cymru

Sefyll ar y traeth

Stori fer ysbrydolwyd gan englyn Mererid Hopwood:

Uwchlaw dŵr ein harbwr ni, - yr eiliad
Pan fo'r hwyliau'n llenwi,
Yr wyt am fwrw ati –
'Wn i ddim a feiddia' i.

Sefais ar y traeth, llaw fy ŵyr yn eistedd yn fy mhalf fel carreg gron tra oedd ei dad yn edrych mas dros donnau garw yn rholio dan frith o sêr. Gallwn deimlo cynhyrfiad y crwt ac ofn ei dad yn gymysg i mewn i ryw fath o gawl hudol o ddisgwyliadau dwfn, dychrynllyd ond gobeithiol. Roeddwn yn falch eu bod nhw ddim yn gallu darllen fy ymennydd, llawn o luniau hunllefus. Roedd gafael bach fy ŵyr yn gryf, bron yn boenus.

Wnes ddim yn moyn gadael nhw'n mynd, ond roedd fy mab ym mhendant ... Nawr Gallwn glywed lleisiau pobl eraill yn teithio dros y môr ac o'n cwmpas ni, Roedd y dyrfa yn casglu. Wynebau, du, yn disgleirio yn y tywyllwch. Roedd yr un teimladau wedi eu hadlewyrchu arnynt yng ngolau'r sêr a'r tonnau, Adleisiau o ofn a gobaith.

Wnes i ddim dweud, 'plîs - peidiwch â mynd ...' Roeddwn yn gweiddi fe yn fy mhen. Daeth y badau bach lawr y traeth. Aethon nhw yn sydyn, llawn dop, dros donnau enfawr fel tai. Aeth y llaw fach hefyd. 'Fy nagrau yn dygystuddio fy neurudd' Libiaidd. Maen nhw wedi mynd i Wlad Roeg.

Nigel Blake, Mis Gorffennaf 2020

Adolygiad o *Ifor Bach* gan Eurig Salisbury, Gomer 2019.

Nofel hanesyddol yw hon sy'n gyffrous, clyfar ac yn llawn cymeriadau cryf sy'n cydio yn y darllenwr yn gyflym. Os darllenwch chi lyfr Eurig, fe gewch chi flas ar sut mae e'n cyfuno ei ddychymyg a'i wybodaeth academaidd a barddonol i greu byd ffuglennol a chredadwy yng Nghymru'r 12fed ganrif. Mae'r stori wedi'i lleoli yn ardal Senghenydd dan arweinyddiaeth yr Arglwydd Ifor, ar ôl i'r Normaniaid feddiannu rhannau o Gymru pan oedd y Cymry'n byw'n anghysurus ochr wrth ochr â'r goresgynwyr.

Y prif gymeriadau yw gwraig Ifor, Nest a'u merch Gwenllïan, ac wrth gwrs mae mwy nag un bardd! Cymeriad arall yw'r eira a thirlun de ddwyrain Cymru yn ystod gaeaf dwfn. Mae'r Arglwydd Ifor, ei deulu a'i osgordd yn gorfod datrys sawl dirgelwch ac ymdopi gyda newyn a'r oerfel. Daw Eurig â digwyddiadau go iawn at ei gilydd mewn stori sy'n cynnwys cymdogion cwerylgar ac arglwyddi Normanaidd llwynogaidd.

Mae'r ffordd mae'r llyfr yn cael ei farchnata yn rhoi'r argraff ei fod wedi'i anelu at bobl iau yn eu harddegau ond rwyf yn siŵr y bydd oedolion yn ei fwynhau hefyd, yn enwedig dysgwyr. Mewn gwirionedd mae Eurig yn hoffi ysgrifennu mewn ffordd eithaf ffurfiol. Mae'r arddull lenyddol yn rhoi rhyw fath o arlliw sepia addas dros stori wedi'i gosod yn oes y beirdd a'r tywysogion. Dyma i chi gyfle i ddysgu patrymau gramadegol anghyfarwydd! Ond peidiwch â phoeni achos bod taflenni geirfa ar gael yma https://www.dysgu.com/geirfa/.

Erbyn diwedd y nofel rwyf yn siŵr y byddwch chi wedi dysgu rhywbeth newydd am hanes Cymru a bywydau beirdd a phobol yn y 12fed ganrif, ac ar ben hynny fe gewch chi eich cyfareddu gan chwip o stori.

Nigel Blake

Erwain

Am hadau yr erwain roedd nhw'n chwilio, un deg tri erbinc roedd ynddyn nhw, yn union tu allan fenestre y gegin. Ro'n i'n mwynhau edrych arnyn nhw ac roedden nhw'n gwneud i fi feddwl am yr erwain.

Mae blodau main, gwynion llyfn gyda erwain mewn clwstwr canghennog. Mae arogl gryf iawn, melys gyda nhw. Maen nhw'n blodeuo yn gynnar yn yr haf tan yn gynnar yn yr hydref.

Mae erwain yn perthyn i deulu'r rhosyn ac yn perthyn i hanes a diwylliant Cymraeg. Mae wyth o enwau gyda fe yn yr iaith Gymraeg: *Blodau'r Mêl, Brenhines y Weirglodd, Bugeiles y Weirglodd, Chwys Arthur, Erchwaint, Erwain, Llysiau'r Forwyn a Meddlys.*

Mae aroglau melys da cryf gyda erwain sy'n gallu esbonio enwau fel Blodau'r Mel. Mae erwaint yn gallu cael lle blaenllaw planhigion eraill felly, caeth e ei enwi 'Brenhines y Weirglodd'. Cafodd yr erwaint ei ffeindio yng ngweddillion tri pherson wedi llosgi ac un anifail mewn carnedd yr Oes Efydd Fan Foel, Sir Gar. Effallai Caeth e ei ddefnyddio mewn medd neu i roi arogl melys.

Yn ol chwedloniaeth Gymraeg, cafodd yr arwr Lleu Llaw Gyffes ei roi dan swyn gan ei fam, Arianrhod. Dywedodd hi na fydd e'n cael gwraig ddynol byth. Er mwyn gwrthweithio hyn, wnaeth Math a Gwydion (swynwyr) lymaid.

Cymeron nhw flodau Derwen, blodau Banadl a blodau Erwain i greu y forwyn fwyaf hardda a theca rhoedd rhywun wedi gweld erioed. Beddyddion nhw hi ac enwyd hi yn Blodeuwedd. Syrthiodd Lleu mewn cariad â Blodeuwedd, ac ar ol i'r ddau briodi, fe gawson nhw dir gan Math. Ond doedd Blodeuwedd ddim mor hapus ac roedd hi'n syrthio mewn cariad gyda dyn arall, Gronw Pebr. Ar ôl blwyddyn o gynllunio, cafodd Lleu ei ladd (wel,troi'n eryr) gan Blodeuwedd a Gronw. Wedyn cafodd Blodeuwedd ei throi'n dylluan ac roedd rhaid iddi hi bod aderyn y nos a'i chasau gan bob aderyn arall.

Ar y diwedd 'Pethau peryg ydy blodau' meddai Gwydion

Mae e'n wir, mae asid salicylic gyda erwain ac yn gallu lladd Robin Goch sydd yn eu bwyta nhw. Fel arfer dyn nhw ddim yn bwyta mesur marwol! Mae asid salicylic (hormôn planhigion) ac yn ddigon uchel i gael ei ddefnyddio yn feddygol fel yr un yn helygen.

Celia Richardson

EDAF
Emyr Davies A'i Fab Cyf
T/A EH FACTORS
Unedau 1-2, Garej Garth, Penrhiwllan, Llandysul, Ceredigion, SA44 5NW
Cyflewnad helaeth o offer yn cynnwys sbaneri, disgiau greindo, byllt a nytiau, rifetiau, bytiau drilio nwyddau weldio, a paent wedi'i cymysgu mewn unrhyw lliw!
ABUS Milwaukee DEWALT ABAC TENGTOOLS VARTA LECHLER MIRKA
PLASSON SENCO BOSCH Beta STABILA CALOR Dickies U-POL
Dillad gwaith yn cynnwys Trowseri, Crysiau, Esgudiau, Siwtiau Troswsyg, a Siacedi Gwaith
Ffôn Swyddfa: 01559 370 733 Ffacs: 01559 371 324
Ffôn Paent: 01559 371 837 Ebost: enquiries@ehfactors.co.uk
Gwasanaeth Cyfeillgar a Proffesiynol

TORWYR CEIR TANYGROES
Darnau i'r rhan fwyaf o geir
Llun - Gwener: 9.00 - 6.00
Sadwrn: 9.00 - 1.30
Sul: 1.30 - 4.30
TANYFRON, TANYGROES, ABERTEIFI
Ffôn: Aberporth 811008

Ar Draws

2 Llaith (o gyfeiriad Neigwl y bu waethaf) (5)
5 Gŵr y clocs (4)
7 Pinacl - neu long hwyliau dal (4)
8 Cael y gore ar wrthwynebwyr (wedi newid aeth i fachu drachefn) (8)
9 'Ond mae'r _ _ _ _ _ _ _ troi'n chwerw' (can bop) (defnyddir 'c' a'r 'h' yn annibynol yn yr ateb (7,1)
11 Tref Thomas Charles a chyrchfan Mari Jones (4)
12 '_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ mae heddiw'n fore mwyn, (1,4,4,4)
15 Relis ar fwyd, yn enwedig ym mis Awst (4)
17 Y fi fawr; cyfystyr â Byd Hunan – bron yr un peth (5,3)
19 Llwytho'n helaeth, yr un fath a'r ail adeiladu pert yn Ur (8)
21 Melodi o enau Beti – wn i ddim pwy yw'r cyfansoddwr (4)
22 Amrantiad. Yng nghanol y merched, hyn a ddyry'r dewin cyfrwys (4)
23 Cefnogwr ariannol. Cadno? Yn debycach efallai, gwelwn yno ddwrgi! (5)

I Lawr

1 Tad y ffyddloniaid. Ar ba ham (yn hollol gyfeiliornus) y try llygad ei blant? (7)
2 Un o'r ddau gawr sy'n gwarchod dinas Llundain. (Nid un o'r De, mae'n amlwg). (3)
3 Gwraig y patrwm araul gynt o'r Drenewydd (5)
4 Tir segur – yr âr ar ben, am y tro (7)
5 'A hed y gylfinir fel _ _ _ drwy y nef' (Eifion Wyn) (3)
6 Hen afon (ai hi roddodd i Mr Kinnock ei enw?) (1,4)
10 Merch yn disgwyl mewn ystad gyffyrddus (5)
11 Pa gig sy'n y cwb 'na? Trowch i gael gweld (5)
13 Cig wahanol i 11, ond ma'r maen yn weddol debyg (7)
14 Poblogaidd gan dwristiaid– yn Ne Lloegr y mae – nid drws nesa i Dresaith! (4,3)
16 Sylwch ar ên Dai wedi altro – mae'n newydd sbon i bob golwg (5)
18 Man i bobl gyfarfod dro i dro i fanteisio ar adloniant neu addysg (5)
20 Gweithred forwrol sy'n ryfeddol ffast – ac o bosibl i ddannedd y gwynt (3)
21 _ _ _ na'n Og. Shang-n-la'r Gwyddel (3)



Atebion Y Gambosair at John y Graig erbyn 27Hydref, 2020

ENILLYDD MIS MEDI

Neb yn gywir

Yn gywir (namyn un cliw) : Rayann Thomas, Boncath; Myris Horton, Boncath; Yvonne Davies, Cenarth; Iwan Davies, Blaenporth; Sally Jones, Tresaith; Tegwen Gibby, Aberporth.

Atebion Gambosair Mis Medi

Ar Draws: 8-Newid enw; 9- Wincio; 10-Pisa; 11-Adroddiadau; 12-Cyfarth; 13-Materion; 14-Adlonni; 16-Pryddest; 19-Y gwannaf; 22-Gofalu; 23-Ar Lyn y Bala; 24-Llifo; 25-Petase; 26-Wylofain

I Lawr: 1-Wedi mynd; 2-Bica; 3-Cenarth; 4-Awgrymu; 5-Gwaddotwr; 6-Enfawr; 7-Ffigaro; 15-Nanhyfer; 17-Sglefrio; 18-Ofnadwy; 20-Gorsedd; 21-Anynad; 22-Gwagle; 24-Llafn

Pritchard Cowburn
OPTEGYDD-OPTICIANS
RIP CURL · CAT · ANNA SUI · Silhouette · BVLGARI · Ray-Ban · HACKETT BESPOKE · Jones · Pepe Jeans LONDON · OAKLEY · TED BAKER LONDON
19 Pendre, Aberteifi, 01239 612004
Spring Gardens, Arberth, 01834 861660
www.pritchard-cowburn.com

Lewis-Rhydlewis
Cysylltwch â ni am wybodaeth bellach
enquiries@lewis-rhydlewis.co.uk
01239 851386

Ceredigion ~ Sir Benfro ~ Sir Gaerfyrddin
Trydanwyr Disglair Lleol
BarriDavies
trydanwr Cyf
a Rhosnewydd, Brynhoffnant, Llandysul, Ceredigion. SA44 6EA
t 01239 654135
m 07812 346150
e barri@bdelectrical.co.uk
w www.bdelectrical.co.uk